| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Teitl yr Adroddiad** | • Adroddiad Blynyddol Addysg 2020-21<br>• Blaenoriaethau'r Adran Addysg |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 9 Rhagfyr 2021 |
| **Awdur** | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Cemlyn Rees Williams |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn unol â dymuniad y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, cyflwynir Adroddiad Blynyddol yr Adran Addysg ar gyfer 2020-21 gerbron y pwyllgor.

1.2 Mae'r Adran Addysg yn cydnabod nad tasg hawdd yw sicrhau craffu effeithiol ar ddogfen sydd yn crynhoi blwyddyn o waith yr Adran Addysg ar lawr pwyllgor, ac o ganlyniad, wedi ceisio llunio adroddiad cryno, sydd yn tynnu sylw at brif waith arferol yr Adran, nodweddion cadarnhaol, ynghyd â meysydd sydd angen sylw dros y cyfnod nesaf. Gwelir yr Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1.

1.3 At hyn, bydd GwE yn manylu ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ganddynt ym maes gwella ysgolion er sicrhau trosolwg cyflawn o'r maes i'r pwyllgor ar gyfer 2020-21.

**2. MEYSYDD ALLWEDDOL O WAITH YR ADRAN ADDYSG YN 2020-21**

2.1 Bu'r flwyddyn addysgol 2020-21 yn heriol iawn i'r Adran Addysg ac ysgolion wrth i bandemig Covid-19 barhau i effeithio ar addysg ein plant, staff ein hysgolion a'n cymunedau. Gwelwyd cyfnod 'firebreak' yn ystod y flwyddyn er mwyn ceisio rheoli'r haint, ac yn dilyn gwyliau'r Nadolig cafwyd cyfnod clo arall, gyda'r ysgolion yn dychwelyd i ddarpariaethau dysgu cyfunol, sef sesiynau dysgu byw, dysgu o bell, a gwaith ar Google Classrooms neu gyffelyb ar HWB. Ar ôl gwyliau hanner tymor Chwefror, gwelwyd y dysgwyr ieuengaf yn dychwelyd i'r ysgol yn gyntaf, gyda gweddill y blynyddoedd yn dychwelyd yn raddol wedi hynny hyd at wyliau'r Pasg.

2.2 Er bod Covid yn parhau yn ein cymunedau, cafwyd mwy o sefydlogrwydd yn nhymor yr haf, gan allu manteisio mwy ar yr awyr agored yn sgil tywydd gwell. Er hynny, arweiniodd y pandemig eto eleni at sefyllfa ble y bu i ddysgwyr dderbyn asesiadau athrawon ar ddiwedd eu gyrfa addysgol ym mlynyddoedd 11, 12 ac 13, yn hytrach nag arholiadau allanol (TGAU a Safon Uwch) a gynhelir yn arferol. Cydnabyddir y bu i'r ansicrwydd a'r diffyg eglurder o amgylch yr asesiadau diwedd blwyddyn achosi cryn rwystredigaeth, straen a phryder i athrawon a dysgwyr fel ei gilydd.

2.3 Isod tynnir sylw at yr hyn y llwyddwyd i'w gyflawni mewn rhai meysydd allweddol o waith yr Adran Addysg yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, yn cynnwys:

- Diogelu
- ADY a CH
- Technoleg Gwybodaeth

- Cyfathrebu
- Y Gymraeg
- Moderneddio Addysg
- Arlwyo a Glanhau

2.4 **Diogelu**

Mae Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd yn flaenoriaeth allweddol i'r Adran a'r Cyngor, ac yn fwyfwy allweddol wrth gwrs yn sgil y pandemig a'r cyfnodau clo pan oedd mwyafrif ein dysgwyr (ar wahân i ddysgwyr bregus a phlant gweithwyr allweddol) yn gorfod aros adref. Yn ddiweddar, mae'r Adran wedi creu pecyn hyfforddi newydd yn y Gymraeg ar gyfer Personau Dynodedig Amddiffyn Plant mewn ysgolion a chanolfannau addysg ar y cyd â Grŵp Diogelu Mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Bu i'r cwrs gael ei beilota yng Ngwynedd yn 2020, a bellach mae'n cael ei gyflwyno fel rhan o raglen hyfforddi rheolaidd.

Mae ysgolion Gwynedd hefyd wedi derbyn gwybodaeth am y Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru a gafodd eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2020. Mae'r gweithdrefnau newydd wedi eu cyflwyno'n ddigidol ar ffurf Ap, ac mae staff allweddol yr Adran ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol ar y gweithdrefnau drwy ddarpariaeth gan NSPCC Cymru drwy gytundeb gyda Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

2.5 **Gwasanaeth ADY a CH**

Mae cyfnod y pandemig wedi bod yn hynod o heriol i ddysgwyr yn gyffredinol, ond yn enwedig i ddysgwyr gyda ADY a CH.  Yn ystod y flwyddyn, bu i'r gwasanaeth ADY a CH greu llyfrgell o adnoddau i hyrwyddo lles ac iechyd meddwl dysgwyr a'u teuluoedd sydd ar gael ar wefan y gwasanaeth, ac mae'r Adran wedi ychwanegu cynhwysedd i'r gwasanaeth cwnsela er mwyn sicrhau cefnogaeth i ddysgwyr yn dilyn y cyfnodau clo a pharhad y pandemig. Bu i drawiadau unigol misol ar y wefan gynyddu o 15,000 ym mis Ionawr 2020 i 130,000 ym mis Ebrill 2020.  Yn ystod arolwg Thematig Estyn o'r ddarpariaeth gafodd ei gynnig i ddysgwyr bregus, bu canmoliaeth i waith y tîm yn nghyd-destun y gynhaliaeth a gafodd ei ddarparu i ysgolion, rhieni a dysgwyr.

Ar yr un pryd, mae'r gwasanaeth ADY a CH wedi bod yn paratoi at ddyfodiad y ddeddfwriaeth newydd, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae momentwm y cynnydd mewn paratoad at y ddeddfwriaeth wedi parhau. Bu ansicrwydd ynglŷn â rhyddhau'r Cod Terfynol ar gyfer gweithredu, a pha newidiadau fyddai wedi eu gwneud i'r Cod Drafft, ond rhyddhawyd y Cod terfynol ym mis Mawrth 2021.

Mae Arolwg Parodrwydd Deddf ADY Llywodraeth Cymru yn dangos cynnydd cryf iawn o ran paratoadau'r Awdurdod o ran y Ddeddfwriaeth. Mae'r swyddi statudol angenrheidiol mewn lle ers Ionawr 2021 ac yn gweithredu'n effeithiol. Mae cyd-weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd wedi datblygu'n dda drwy gydweithio gyda'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA). Mae nifer o ddigwyddiadau hyfforddi rhan-ddeiliaid wedi eu cynnal ar gyfer manylu ar agweddau penodol o'r Cod Terfynol. Bu gwaith ar y llwybrau datrys anghydfod i sicrhau bod rhain yn weithredol. Yn y sector blynyddoedd cynnar mae'r systemau angenrheidiol ar gyfer adnabod yn fuan, a sefydlu prosesau clir wedi ei gyflawni, ac mae'r gwaith paratoi yn y sector ôl-16 yn parhau. Hefyd mae'r gwaith o ddatblygu cyswllt gweithio, cwricwlwm ag asesu rhwng y prif-lif a'r Ysgolion Arbennig wedi datblygu ac yn parhau i ddatblygu.

At hyn, mae gwaith arloesol yn parhau i gymryd lle o ran defnydd a datblygiad parhaus y system Cynllun Datblygu Unigol ar-lein, gyda'r system yn gyrru'r holl broses ar gyfer yr ysgolion, rhieni, asiantaethau allanol a darpariaethau addysg eraill (e.e. blynyddoedd cynnar).

3.6 **Technoleg Gwybodaeth**

Bu'r Adran Addysg yn rhagweithiol a blaengar iawn ym maes TGCh o gychwyn y cyfnod clo cyntaf gan sicrhau 1,200 o ddyfeisiadau Chromebook a 175 o ddyfeisiadau MiFi i deuluoedd heb fynediad at dechnoleg yn Nhymor yr Haf 2020.

At hyn, bu i'r Adran Addysg lunio polisïau a gweithdrefnau blaenllaw er mwyn caniatáu ysgolion Gwynedd i fod yn dysgu o bell drwy dechnoleg dysgu byw. Bu i bolisi blaengar Gwynedd maes o law gael ei fabwysiadu gan nifer o awdurdodau eraill, a bu'r Awdurdod yn flaengar yn hyrwyddo ac annog sesiynau dysgu byw gyda'n hysgolion.

Yn ystod Tymor yr Haf 2021, darparwyd dros 6,000 o ddyfeisiadau i ysgolion, gyda 6,000 o ddyfeisiadau ychwanegol wedi eu prynu.  Yn ystod y flwyddyn, cymeradwywyd Strategaeth Addysg Ddigidol gan y Cabinet sydd yn nodi sut y byddwn yn ymateb i'r her o gefnogi addysg drwy dechnoleg. Llwyddwyd hefyd i sefydlu trefn cynnal a chadw gwydn ar gyfer y dyfeisiadau i'r dyfodol.

3.7 **Cyfathrebu**

Mae'r Adran Addysg wedi parhau i roi bri mawr ar gyfathrebu gyda rhan-ddeiliaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan geisio sicrhau arweiniad, canllawiau a phenderfyniadau amserol i alluogi ysgolion weithredu yn y modd mwyaf priodol o dan yr amgylchiadau.

3.8 **Y Gymraeg**

Yn dilyn cyfnod estynedig o addysgu gartref, a'r pryder cenedlaethol a fynegwyd am effaith andwyol y pandemig ar safonau'r Gymraeg, rydym wedi llunio holiadur penodol er mwyn cael gwell trosolwg o sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr yn ysgolion Gwynedd.  Gofynnwyd cwestiynau er mwyn ystyried sut y caiff sgiliau ieithyddol plant eu heffeithio gan gyfnodau estynedig i ffwrdd o'r ysgol. Gofynnwyd am unrhyw anghenion cefnogi/hyfforddiant penodol y gall fod ei angen ar y gweithlu i gefnogi datblygiad y sgiliau i sicrhau'r cynnydd a ddisgwylir, a gofynnwyd am ymwneud y dysgwyr â'r gwaith a osodwyd iddynt yn ystod y cyfnodau clo, ac am unrhyw rwystrau amlwg. Holwyd pob pennaeth, ynghyd â chynrychiolwyr o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad ymhob ysgol uwchradd, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Cyfnod Sylfaen. Cytunai'r mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr bod sgiliau iaith y dysgwyr wedi eu heffeithio o ganlyniad i'r cyfnodau o addysgu o adref.

Dengys y data a gasglwyd mai'r prif bryderon yw defnydd cymdeithasol y dysgwyr o'r Gymraeg, parodrwydd dysgwyr i siarad Cymraeg, ynghyd â safon eu patrymau iaith ar lafar. Rydym wedi adnabod felly mai sgiliau llafaredd yw'r pryder mwyaf ar draws y sir. Y camau nesaf fydd rhannu adroddiad yn unigol gyda phennaeth pob ysgol fydd yn cynnwys cynllun posib i dargedu'r gwendidau a amlygwyd a gofyn wrthynt fireinio a chadarnhau'r cynllun gweithredu i ymateb i'r canfyddiadau.

Rydym hefyd wedi rhoi sylw penodol i gefnogi sgiliau iaith y gweithlu er mwyn ceisio hwyluso dyfodol cyfrwng Cymraeg i'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5 trwy dreialu cynllun peilot Cymraeg Gwaith i Athrawon, Llywodraeth Cymru gyda staff addysgu un ysgol uwchradd yn y sir.

3.9 **Moderneiddio Addysg**

Er gwaethaf y pandemig bu i adeilad newydd Ysgol y Garnedd agor ei drysau yn Hydref 2020 gan ddod yn gartref addysgol newydd i hyd at 420 o ddysgwyr yn ninas Bangor. Mae safle'r ysgol hefyd yn cynnig addysg feithrin a darpariaeth gofal plant cynhwysfawr mewn awyrgylch pwrpasol gyda'r adnoddau gorau posibl. Mae gofod wedi ei gynllunio'n ofalus yn ogystal ar gyfer unedau arbenigol i gefnogi datblygiad plant ar y safle. Roedd gwaith tîm ardderchog, a chyfathrebu clir yn nodwedd o'r prosiect llwyddiannus hwn sydd wedi cadw o fewn y gyllideb a neilltuwyd ar ei gyfer.

Mae'r prosiect wedi ei enwebu ar gyfer tair gwobr Rhagoriaeth Mewn Adeiladwaith yng Nghymru 2021 sef:
*Gwobr Adeiladwaith Digidol (Digital Construction Award)*
*Gwobr Integreiddio a Chydweithio (Integration and Collaborative Working Award)*
*Gwobr Cleient y flwyddyn (Client of the Year Award)*
https://www.cewales.org.uk/cew-awards/awards-2021/

3.10 **Arlwyo a Glanhau**

Mae'r gwasanaeth yma wedi bod yn allweddol drwy gydol y pandemig i sicrhau gwasanaeth glanhau rheolaidd yn ystod y dydd er mwyn sicrhau awyrgylch diogel i ddysgwyr a staff yn ein hysgolion, yn ogystal â sicrhau darpariaeth cinio ysgol. Yn wir, mae'r gwasanaeth yma wedi bod yn gwbl greiddiol i alluogi ysgolion i barhau ar agor, a hynny pan fo'r gwasanaeth yn cael anawsterau recriwtio ac yn meddu ar lefelau salwch uchel ymhlith staff y gwasanaeth a hynny hyd yn oed cyn y pandemig.

Wedi i'r ysgolion ail-agor ar ôl yr ail gyfnod clo, bu i'r canran plant oedd yn cael cinio ysgol aros yn eithaf sefydlog o gwmpas 50% rhwng Ebrill-Gorffennaf 2021, sydd yn cyfateb yn fras i'r canran plant oedd yn cael cinio ysgol cyn y pandemig.

## 4 BLAENORIAETHAU'R ADRAN ADDYSG

4.1 **Gagendor Lles a Chyrhaeddiad**

Yn sgil y pandemig a'r cyfnodau clo, mae'r Adran Addysg a'r Cyngor wedi adnabod y gagendor lles a chyrhaeddiad fel un o'r prif flaenoriaethau yn sgil pryder y gallai rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y byddai angen cymorth ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw, ynghyd â'r angen am gefnogaeth gyda'u lles.

Er mwyn ymateb i'r pryder hwn, ers Medi 2020 mae pob ysgol yng Ngwynedd yn gweithredu *Rhaglen Cyflymu'r Dysgu* gydag arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr 5-16 oed. Mae blwyddyn bellach ers cyhoeddi'r rhaglen, ac rydym yn awyddus i wybod pa effaith y mae'r rhaglen a'r arian wedi ei gael ar les a chyrhaeddiad ein dysgwyr. O ganlyniad dros y misoedd nesaf byddwn ar y cyd â'r gwasanaeth gwella ysgolion (GwE) yn casglu tystiolaeth o effaith y rhaglen a'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i rai dysgwyr.

Y tu hwnt i'r ysgol, mae dau gyfnod ym mywyd plant a phobl ifanc wedi eu hadnabod fel blaenoriaeth o ran ymateb i'r gagendor lles a chyrhaeddiad hefyd, sef plant 0-5 oed, ynghyd â phobl ifanc ôl-16. Yn sicr, mae'r cyfnodau clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar, gydag anghysondeb ar draws y sir o ran ystod ac argaeledd gwasanaethau. Mae'r ystod o bartneriaid sydd yn rhan o'r ddarpariaeth ynghyd â chyfeiriad

strategol y maes yn genedlaethol yn ei gwneud yn anodd i saernïo ein gwasanaethau ni yma yng Ngwynedd. O ganlyniad, rydym yn bwriadu cyflwyno strategaeth ar gyfer y maes fydd ag anghenion Gwynedd yn ganolog iddo, gan ymgynghori ar ei gynnwys gyda'r holl ran-ddeiliaid allweddol yn ystod y misoedd nesaf.

Hefyd o sylweddoli fod y grŵp oedran 16-24 wedi eu heffeithio'n anghymesur gan yr argyfwng yn fwy nag unrhyw grŵp oedran arall, rydym wedi llunio adroddiad cychwynnol sydd yn casglu'r holl dystiolaeth ynghyd, ac yn bwriadu ail-ymgynnull y grŵp traws-adrannol a oedd eisoes yn cyfarfod mewn perthynas â'r fframwaith ymgysylltu, gyda'r bwriad fod y grŵp yma'n cymryd gofal o'r rhaglen waith.

4.2 **Strategaeth Addysg Ddigidol**

Mae'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni drwy'r strategaeth addysg ddigidol yn hynod uchelgeisiol ac yn arwydd o'r ffordd yr ydym ni'n blaenoriaethu addysg ein plant yma yng Ngwynedd. Yn syml, mae'r strategaeth yma, o'i gweithredu'n llawn am roi dyfais addas i alluogi dysgu digidol yn nwylo pob plentyn o flwyddyn 3 hyd at flwyddyn 11. Gwynedd fydd un o'r awdurdodau cyntaf i wneud hynny yng Nghymru ac mae'n rhywbeth y gallwn ni ymfalchïo ynddo.

Mae gwaith sylweddol eisoes wedi ei gyflawni, gan gynnwys uwchraddio rhwydwaith ysgolion yn unol â'r safonau digidol addysg, yn ogystal â'r gwaith o drawsnewid dull hidlo'r we. Mae ychydig dros £1.3m wedi ei fuddsoddi yn y rhwydwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. At hyn, mae nifer sylweddol o ddyfeisiadau wedi eu rhannu yn unol â'r strategaeth. Mae digon o *ipads* wedi ei rhannu i roi un i bob pedwar dysgwr yn y Cyfnod Sylfaen, gyda digon o *Chromebooks* wedi eu rhannu fel bod pob dysgwr o flwyddyn 3 i 6 yn cael dyfais yr un. Mae dyfeisiadau Windows 10 yn cael eu paratoi yn ogystal ar gyfer pob disgybl ym mlwyddyn 7, 10 ac 11. Bydd pob un o athrawon Gwynedd yn derbyn dyfais safonol drwy'r strategaeth dros y misoedd nesaf gyda'r gobaith y bydd hyn yn tanio dychymyg a sbarduno ymhellach ddyfeisgarwch ac effeithiolrwydd yr agweddau o ddysgu digidol ar draws y sectorau.

4.3 **Y Gymraeg**

Er y pandemig, mae gwaith sylweddol wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf yn trafod a chynllunio cynnwys, targedau a blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), sydd yn ddogfen statudol yr Awdurdod Lleol. O Fedi 2022, bydd y CSGA yn ddogfen cynllunio 10 mlynedd ar gyfer addysg Gymraeg/dwyieithog yn unol â'r rheoliadau newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn sgil y gwaith sydd wedi mynd rhagddo, rydym ar hyn o bryd wedi cyhoeddi fersiwn drafft o'r CSGA ac rydym ynghanol cyfnod ymgynghori cyhoeddus arno ar hyn o bryd, gyda'r bwriad y byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau a dderbynnir mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn ystod Tymor y Gwanwyn 2022, gan addasu cynnwys y CSGA fel y gwelwn orau, gyda'r CSGA ar ei newydd wedd yn dod yn ddogfen weithredol erbyn Medi 2022.

## 5 ARGYMHELLION

Gofynnir i'r aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau ar yr hyn y mae'r Adran Addysg wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a amlinellir yn y blaenadroddiad hwn a'r Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1, ynghyd ag unrhyw sylwadau ar flaenoriaethau'r Adran ar gyfer y cyfnod nesaf.